Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Polisi Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

## Cynnwys


1. Platfformau ..... 3
2. Argaeledd ..... 3
3. Cyswllt ..... 3
4. Dilyn ..... 3
5. Ymgysylltu â chynnwys arall ..... 3
6. Gwneud cwyn ..... 4
7. Cwynion sy'n bod ..... 4
8. Gwybodaeth bersonol ..... 5
9. Y Gymraeg ..... 5
10. Hygyrchedd ..... 5
11. Defnydd staff o blatfformau cyfryngau cymdeithasol ..... 5
12. Ymddygiad annerbyniol ..... 6
13. Adolygu a chyhoeddi ..... 6

## 1. Platfformau

1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl blatfformau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwn. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys X, Facebook, LinkedIn, Threads, ac Instagram. Mae gennym gyfrif Youtube, ond gan ein bod yn ei ddefnyddio'n bennaf ar hyn o bryd i storio a rhannu ein cynnwys fideo, nid yw ei ddefnydd wedi'i gynnwys yn y polisi hwn.

## 2. Argaeledd

2.1 Ein Tîm Cyfathrebu sy'n rheoli ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Rheolir y cyfrifon yn ystod oriau swyddfa, o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. O bryd i'w gilydd, gallwn fonitro neu ymateb y tu allan i'r oriau hyn. Nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am oedi neu ddiffyg ymateb oherwydd amser tawel platfform.

## 3. Cyswllt

3.1. Rydym yn darllen pob cynnwys rydym yn cael ein tagio ynddo a phob Neges Uniongyrchol (DM) a anfonir atom ac yn sicrhau bod unrhyw themâu sy'n codi neu awgrymiadau defnyddiol yn cael eu trosglwyddo i'n cydweithwyr. Rydym yn ateb y cynnwys hwn os teimlwn y gallwn gyfrannu i'r drafodaeth neu gynnig cymorth.

## 4. Dilyn

4.1 Rydym yn dilyn neu'n hoffi cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eraill sy'n berthnasol i'n gwaith. Gall hyn gynnwys cyfrifon unigolion, yn ogystal â sefydliadau cyhoeddus a phreifat. Nid yw ein penderfyniad i ddilyn defnyddiwr Twitter penodol yn golygu ein bod yn eu hardystio mewn unrhyw ffordd ac nid yw'n golygu ein bod yn cefnogi'r defnyddiwr hwnnw, na'i farn ef neu hi.

## 5. Ymgysylltu â chynnwys arall

5.1 Efallai y byddwn yn hoffi, rhannu, neu ail-bostio newyddion, dolenni neu unrhyw gynnwys arall sy'n berthnasol i'n gwaith a mandad, ac sydd o ddiddordeb posibl i'n dilynwyr. Nid yw'r gweithredoedd hyn yn awgrymu ein bod yn cymeradwyo'r neges neu'r unigolyn neu'r sefydliad y mae'r postiad yn tarddio ohono.

## 6. Gwneud cwyn

6.1 Rydym yn hapus i ymgysylltu â chi ar gyfryngau cymdeithasol i'ch helpu i gael mynediad at ein gwasanaeth, Serch hynny, yn gyffredinol, nid sianel ar gyfer cyflwyno cwynion yw ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn oherwydd na allwn warantu y byddwn yn ymateb ichi trwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol mewn modd amserol. Os oes gennych unrhyw ymholiad neu os hoffech gyflwyno cwyn, defnyddiwch ein ffurflen ar-lein (www.ombwdsmon.cymru/cwyn), neu cysylltwch â ni trwy ffonio, e-bostio neu bostio:

0300 790 0203
holwch@ombwdsmon.cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

6.2 Byddwch yn ymwybodol ein bod yn annhebygol o ymateb i bostiad rydym wedi ein tagio ynddo ochr yn ochr â nifer fawr o sefydliadau eraill.

## 7. Cwynion sy'n bod

7.1 Gallwn gyhoeddi astudiaethau achos dienw a thrafod materion yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid ydym yn defnyddio ein ffrwd cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â materion sy'n ymwneud â chwynion penodol sy'n bod. Ein nod yw osgoi dwysáu materion o'r fath yn gyhoeddus. Os ydych am drafod achos penodol, cysylltwch â'n swyddfa yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Fel arall, os oes angen cyngor a chymorth arall arnoch, neu os hoffech rannu eich adborth â ni, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy'r dewis Neges Uniongyrchol (fel sydd ar gael ar bob platfform).

7.2 Nid yw ein postiadau cyfryngau cymdeithasol yn gyfrwymol nac yn ffynhonnell awdurdodol o gyfraith, polisi, cyngor na chanllawiau gan ein swyddfa.

## 8. Gwybodaeth bersonol

8.1 Os ydych yn dewis cymryd rhan mewn trafodaethau â ni trwy gyfryngau cymdeithasol, dylech fod yn ymwybodol eich bod yn gwneud hynny yn gyhoeddus. I amddiffyn eich preifatrwydd a phreifatrwydd eraill, rydym yn argymell nad ydych yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn eich postiadau.

## 9. Y Gymraeg

9.1 Rydym yn postio ein cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

9.2 Byddwn bob amser yn postio yn Gymraeg yn gyntaf.

9.3 Ni allwn warantu bod cynnwys allanol yr ydym yn ei rannu neu'n ei ail-bostio ar gael yn Gymraeg. Pan fyddwn yn ail-bostio cynnwys uniaith Saesneg, byddwn yn ychwanegu capsiwn Cymraeg.

9.4 Rydym yn croesawu gohebiaeth drwy Twitter yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn bob amser yn ymateb i chi yn iaith wreiddiol yr @ymateb neu’r Neges Uniongyrchol. Mae croeso i chi roi gwybod i ni beth yw eich dewis iaith ar unrhyw adeg.

## 10. Hygyrchedd

10.1 I wella hygyrchedd ein cynnwys:

- Byddwn yn anelu at bostio mewn Cymraeg Clir / Plain English
- Wrth bostio delweddau, byddwn yn ychwanegu testun ALT
- Wrth bostio delweddau, byddwn bob amser yn ychwanegu is-deitlau.

## 11. Defnydd staff o blatfformau cyfryngau cymdeithasol

11.1 Efallai y bydd rhai o’n staff yn postio gan ddefnyddio eu henwau eu hunain, fel dinasyddion preifat. Er gwaethaf eu cysylltiad proffesiynol ag OGCC, nid yw eu postiadau neu’r cynnwys y maent yn ei rannu yn cynrychioli safle swyddogol OGCC.

## 12. Ymddygiad annerbyniol

12.1 Rydym yn croesawu ac yn annog pob sylwad ac yn disgwyl y bydd trafodaethau yn cael eu cynnal mewn modd parchus. Gofynnwn i chi gadw eich sylwadau'n berthnasol ac osgoi ymosodiadau personol. Ni fyddwn yn caniatáu sylwadau tramgwyddus, amharchus na sarhaus am unigolyn, ein sefydliad nac unrhyw un o'r cyrff yn ein hawdurdodaeth.

12.2 Gall ymddygiad annerbyniol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- iaith neu gynnwys ymosodol, anllad, anweddus, bygythiol, treisgar neu sarhaus
- sylwadau difenwol, gofidus, milain neu gyhuddiadau yn erbyn unigolion neu sefydliadau
- enwi aelodau unigol o staff
- sylwadau sy'n gwahaniaethu ar sail hil, tarddiad cenedlaethol neu ethnig, oedran, crefydd neu gred, rhywedd ac ailbennu rhywedd, statws priodasol, statws economaidd-gymdeithasol, anabledd corfforol neu feddyliol, cyfeiriadedd rhywiol neu ddefnydd o'r Gymraeg
- negeseuon sy'n annog neu'n awgrymu gweithgaredd anghyfreithlon
- dolenni a chod gormodol
- postiadau sy'n datgelu gormod o wybodaeth bersonol
- postiadau sy'n ailadroddus neu sy'n cael eu hystyried yn sbam, megis postio'r un sylw dro ar ôl tro.

12.3 Er mwyn amddiffyn ein staff rhag ymddygiad annerbyniol, rydym yn cadw'r hawl i rwystro a / neu riportio unrhyw gyndynrwydd afresymol, bygythiadau neu ymddygiad tramgwyddus.

## 13. Adolygu a chyhoeddi

13.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 mlynedd a'i gyhoeddi yn fewnol ac yn allanol.

13.2 Gellir anfon pob ymholiad am y polisi hwn at rheolipolisi@ombwdsmon.cymru